# Rheolaeth

## MEDDYLIWCH AMDANI

RHIFYN 9 - MAI 2005

**Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.**

**Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.**

**Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob deufis, yw'ch helpu chi, a phobl debyg i chi, i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.**

**Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.**

**gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk**

### Pwyso a Mesur yr holl Opsiynau

Amcangyfrifir bod dros naw miliwn o sefyllfaoedd yn bosibl ar fwrdd gwyddbwyll ar ôl dim ond 3 o symudiadau gan un o'r chwaraewyr.

**Sut fyddwch chi, fel rheolwr, yn sicrhau eich bod yn gwerthuso'r holl opsiynau sydd ar gael ichi cyn gwneud penderfyniadau strategol, pwysig?**

### Eich Gwerthu Eich Hun i'r Tîm

Darganfu arolwg newydd Buddsoddwyr mewn Pobl fod llai nag un o bob pump o weithwyr yng Nghymru yn ystyried eu pennaeth o werth i'r sefydliad a dim ond un ymhob tri yn ystyried eu pennaeth yn batrwm da i'w efelychu.

**Sut ydych chi'n gwybod beth yw barn eich staff amdanoch chi, a beth fyddwch chi'n ei wneud am hyn?**

### Arweinwyr neu Reolwyr

Dywed Jonathan Gosling a Henry Mintzberg o Athrofa Technoleg Massachusetts nad yw rheolaeth "nag yn broffesiwn nag yn wyddor, ond yn arfer y mae angen ei werthfawrogi trwy brofiad, yn ei gyd-destun."

**Ydych chi'n cytuno â hyn, ac os felly, sut all rheolwyr neu arweinwyr gyflymu eu llwybr dysgu tuag at ragoriaeth?**

### Yr Ychydig Dethol!

Er bod dwy ran o dair o fusnesau yng Nghymru yn darparu rhywfaint o gyfleoedd ffurfiol datblygu rheolwyr, datgelodd arolwg diweddar fod llawer o'r rhain yn canolbwyntio'u buddsoddiad ar lai na hanner y tîm rheoli.

**O ystyried y gallai eich cyllideb hyfforddi fod yn un gyfyngedig, a ydych chi o'r farn ei bod yn well buddsoddi yn y rheolwyr mwyaf addawol a champus eu perfformiad na gwasgaru'r hyfforddiant ymhlith pob un o'r rheolwyr yn eich tîm.**

### Cymharu Nodiadau i Lawr yn y Clwb

Ystyrir bod rhwydweithio trwy glybiau, cymdeithasau ac ati yn ffordd ardderchog o ennill busnes newydd, gan ei fod yn helpu i agosáu at ddarpar gwsmeriaid ac ennill eu hymddiriedaeth.

**Mae'n bur debyg y byddwch chi'n cytuno â hyn. Ond a ydych chi hefyd yn manteisio i'r eithaf ar rwydweithio fel cyfle i ddysgu, trwy ei ddefnyddio'n systematig i ddarganfod sut y bydd rheolwyr eraill yn trin y math o faterion rydych chi'n eu hwynebu yn eich busnes?**

### Gwefannau Rheolaeth — www.move-on.org.uk.

Nodwyd bod gwella sgiliau sylfaenol y gweithlu yn flaenoriaeth uchel i reolwyr. Prosiect rhifedd a llythrennedd cenedlaethol yw Move-On, sy'n cynnig cwrs gloywi yn rhad ac am ddim i ddysgwyr newydd nad ydyn nhw'n ystyried bod angen help arnyn nhw â'u sgiliau sylfaenol. Mae cwis rhifedd a llythrennedd rhyngweithiol ar gael, a chyn ichi awgrymu enwau pobl eraill yn eich sefydliad a allai fod am wneud hyn, rhowch gynnig arno eich hun. Mae'n darparu rhestr wirio cymhwysedd defnyddiol ar gyfer y tasgau y mae'n rhaid inni eu cyflawni bob dydd.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

*Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth*